**<u>Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn</u>**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

**Ieuenctid Mewn Cymdeithas**

**Dogfennau o Bwysigrwydd Hanesyddol**

# HYFFORDDIANT A GWASANAETH I FERCHED 14–16 OED

**Cylchlythyr 1630, 27ain Mai 1943**

**Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth i'r Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Addysg Uwch a chopïau, er gwybodaeth, i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Addysg Elfennol.**

1. Mae'n rhaid sicrhau nad yw'r holl gofrestru bechgyn a merched hŷn, a'r symbyliad y mae hyn wedi ei roi i ddarparu adnoddau i ddiwallu eu hanghenion hyfforddiant a gwasanaeth, yn llesteirio hawl y rheiny sydd yn y grwpiau oedran llai (14 - 16) i gael eu hanghenion wedi eu diwallu cystal ag y bo modd o dan amgylchiadau rhyfel. Mae sylw'r Bwrdd wedi cael ei ddenu yn benodol at anghenion merched yn yr ystod oedran iau hwn, a sylweddolir bod y cyfleoedd am hyfforddiant a gwasanaeth, sydd yn gallu bod yn ddeniadol yng nghyswllt yr ymdrech genedlaethol bresennol, yn ymddangos yn annigonol o'u cymharu â'r rhai sydd ar gael i fechgyn o'r un oed.

2. Mae'r Bwrdd wedi bod yn ymgynghori ynglŷn â'r mater gyda Grŵp Merched Cynhadledd Sefydlog y Mudiadau Ieuenctid, ac maent yn credu y byddai'n ddymunol iawn cael mwy o gyhoeddusrwydd i waith y mudiadau cenedlaethol. Ceir crynodeb bras isod o'r hyfforddiant arbennig ar gyfer gwasanaeth cenedlaethol a wneir gan y mudiadau hyn, a dymuna'r Bwrdd ofyn i'r Awdurdodau a'u Pwyllgorau Ieuenctid roi pob anogaeth a chefnogaeth posibl iddynt wrth ddatblygu eu gwaith.

(a) **Cymdeithas Gyfeillgar y Merched -** Mae Cynllun Hyfforddiant Rhyfel y Gymdeithas yn agored i ferched 14 oed a hŷn, ac mae'n cynnwys Crefft Cartref (coginio, cyweirio, golchi a sychu dillad, trydan, gwaith plymio, trwsio'r tŷ); Paratoi Bwyd (cadw dofednod, garddio llysiau, cynnyrch llaeth); Iechyd I (cymorth cyntaf, glendid personol, nyrsio cartref); Iechyd II (lles plant, glendid personol, cadw'n heini neu ddawnsio); Ysgrifenyddol (ysgrifennu llythyron, ffonio, cadw llyfrau); Techneg A.R.P: Dinasyddiaeth. Gall y rheiny nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas ddod yn aelod o Glwb a dod yn rhan o'r cynllun. Er mwyn ennill Bathodyn Hyfforddiant Rhyfel, mae'n ofynnol i ferch basio mewn unrhyw un adran, ac er mwyn ennill tystysgrif derfynol, rhaid pasio mewn tair o'r saith adran.

(b) **Mudiad y Geidiaid (Adran y Rhodwyr) -** Gall merched sydd yn 14 oed ac yn hŷn ddod yn aelod o Gwmnïau'r Rhodwyr a'r Rhodwyr Môr, er mwyn dod yn rhan o gynllun hyfforddiant sydd wedi ei gynllunio dros uchafswm o bum mlynedd. Gall merch ymuno â Chwmni

neu Griw am un flwyddyn gan wneud yr Hyfforddiant Argyfwng Cartref a'r hyfforddiant morwrol arbenigol. Mae hyfforddiant y Rhodwyr Môr o werth arbennig i'r rheiny sy'n dymuno mynd yn aelodau o'r W.R.N.S. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol, gall Rhodwyr neu Rodwyr Môr wneud hyfforddiant arbenigol yn unol â'u dewis a'u dawn. Trefnir yr hyfforddiant arbenigol yma yn ôl grwpiau fel a ganlyn: (a) Gwasanaeth y Cartref; (b) Gwasanaeth Nyrsio; (c) Lles Plant; (d) Diwylliannol; (e) Gwasanaeth y Glannau ac Afonydd; (f) Yr Awyr Agored; (g) Gwasanaeth Cymunedol; (h) Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae gwersylla, gwaith tir, rhwyfo a hwylio, dawnsio gwerin, drama a chanu hefyd ar gael yng nghynllun hyfforddiant cyffredinol y Rhodwyr. Yn y symudiad byd-eang hwn, mae pob Rhodwr yn cymryd cyfrifoldeb am ryw agwedd ar wasanaeth cenedlaethol cyson yn ei hamser rhydd wrth iddi ymuno.

(c) **Urdd y Merched -** yn ei Gwmnïau ar gyfer merched rhwng 14 - 16 oed, mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddi mewn cymorth cyntaf, nyrsio gartref, lles plant, gwyddor tŷ, cerddoriaeth a drama, crefftau, hyfforddiant corfforol hamdden sy'n cynnwys gêmau a dawnsio gwerin, pob math o weithgareddau awyr agored yn cynnwys gwersylla, nofio, astudiaethau natur, gêmau, etc. Mae'r hyfforddiant a gynigir yn paratoi aelodau a chwmnïau i ddarparu gwasanaeth yn y cartref a'r Capel y maent yn perthyn iddo.

(d) **Brigâd Bywyd y Merched -** Mae'r Frigâd yn cynnig hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, nyrsio gartref, lles plant, dinasyddiaeth, arwyddo, hyfforddiant corfforol hamdden, glendid, gwybodaeth leol a darllen map, rheoli'r cartref, achub bywyd mewn tân a dŵr. Anogir garddio rhandir, cynilo a diddordebau amser rhyfel, a rhoddir cyfarwyddyd ar goginio amser rhyfel. Ceir crynodeb manwl ar bob pwnc, ac mae'n rhaid cyrraedd safon uchel cyn bod Bathodyn Medr yn cael ei ddyfarnu i'r merched sydd wedi rhoi lleiafswm o 100 awr o wasanaeth gwirfoddol i safleoedd cymorth cyntaf, ysbytai, canolfannau nyrsio, gwaith cantîn, cymorth i gasglu deunyddiau a achubwyd, etc. Hefyd, gellir dyfarnu'r Bathodyn ar ôl llwyddiant boddhaol mewn prawf A.R.P sydd wedi ei gymeradwyo.

(e) **Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Merched -** Mae gan Gymdeithas Genedlaethol y Clybiau Merched gynllun Cwmnïau Gwasanaeth Cadét, sydd ag amrediad oedran rhwng 14 - 20 oed, wedi ei rannu i ddau grŵp sef 14 - 16 oed, a 16 - 20 oed. Gellir ffurfio cwmni o fewn unrhyw glwb, clwb ieuenctid neu ysgol, neu fel uned annibynnol. Wrth ymuno, mae'r cadéts yn cytuno i'r canlynol:

(a) gwasanaeth gwirfoddol cyson unwaith yr wythnos;
(b) hyfforddiant cyson unwaith yr wythnos, gan gyflawni un cwrs ar y tro;
(c) bod yn barod i gynorthwyo mewn argyfwng.

Gall y gwasanaeth hwn gael ei wneud ar sawl ffurf, yn unol ag amgylchiadau'r ardal leol a gallu'r Cadét. Nod yr hyfforddiant yw paratoi'r Cadét ar gyfer ei gwasanaeth, e.e. cymorth cyntaf, ymladd tân, darllen map ar gyfer gwasanaeth argyfwng, lles plant, atgyweirio'r tŷ, coginio adeg rhyfel, gwaith ysgrifenyddol. Mae'r Cwmnïau yn amrywio yn eu maint rhwng chwech a chwedeg. Maent wedi cael eu rhannu yn adrannau o dan Arweinwyr Adran sy'n ferched. Pwyllgor yr Arweinydd Adran sydd yn gyfrifol, o dan Arweinydd y Cwmni, am les y cwmni. Caiff bathodyn arbennig ei wisgo, gyda neu heb y wisg arbennig.

(f) **Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc -** Mae'r Ffederasiwn yn croesawu merched fel aelodau, naill ai fel aelodau o Glybiau Ffermwyr Ifanc sydd eisoes mewn bodolaeth, neu i ddechrau clybiau newydd sbon. Maent yn cynnig

hyfforddiant cyn-wasanaethol i'r rheiny sydd yn dymuno ymuno gyda Byddin Dir y Menywod, neu sydd eisiau cymryd rhan yn y gwasanaeth hanfodol o gynhyrchu bwyd yn genedlaethol.

(g) **Brigâd Ambiwlans Sant Ioan -** Mae'r Frigâd yn derbyn merched rhwng 11 - 17 oed fel aelodau o'r Adran Cadét, ac mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth cyntaf, nyrsio cartref a glendid, coginio, nofio ac achub bywyd, hyfforddiant môr a chwch, ymladd tân ac A.R.P, gwaith ysgrifenyddol, arwyddo, crefftau cartref, gwaith llaw, "*handyman*", dinasyddiaeth, cyfieithu, hyfforddiant corfforol a gemau strwythuredig, gwersylla ac astudiaethau natur, lles plant, gwybodaeth a gofal anifeiliaid. Mae Bathodyn Gwasanaeth Rhyfel arbennig wedi cael ei wneud, ac fe'i dyfernir am bob cyfnod o 12 mis y mae'r Cadét wedi rhoi 300 neu fwy o oriau mewn gwasanaeth rhyfel (e.e. gwaith cynnal a chadw mewn ysbytai, gwaith mewn Ysgolion Meithrin, Meithrinfeydd Rhyfel, Llyfrgelloedd Ysbytai, Gwasanaeth Cyflenwad Canolog Ysbytai, A.R.P, a chynlluniau sydd wedi cael eu trefnu gan Gronfa Amaethyddol y Groes Goch).

(h) **Urdd Gobaith Cymru -** Mae hwn yn fudiad ieuenctid cyd-addysgiadol gyda chanran ychydig yn fwy o aelodau sy'n ferched na bechgyn. Nod y mudiad yw argymell dinasyddiaeth Gristnogol, ac mae'r hyfforddiant wedi ei rannu i bedair prif adran: crefydd a dinasyddiaeth; iechyd a gweithgarwch corfforol adloniannol; diwylliant, celfyddyd a gwaith llaw; a gwasanaethau cenedlaethol megis ambiwlans, nyrsio, coginio, garddio, ynghyd ag unrhyw wasanaeth rhyfel y mae'r merched a bechgyn yn gallu eu cynnig o fewn eu grŵp oedran.

(i) **Grwpiau Ieuenctid Cydweithredol** - Mae pob Clwb Ieuenctid cydweithredol yn darparu ar gyfer merched 14 i 16 oed, yn ogystal ag ar gyfer bechgyn. Fel rhan o'r cynllun hyfforddi cyffredinol ar gyfer dinasyddiaeth dda, mae merched yn cael cynnig hyfforddiant coginio, cadw tŷ, golchi a smwddio, nyrsio cartref, cymorth cyntaf, marchnata, garddio, bioleg a gwybodaeth am ryw, magu plant, hyfforddiant corfforol a gêmau strwythuredig, darllen drwy chwarae, gwersylla a nofio. Mae gwasanaeth cymunedol yn cynnwys "gwneud a thrwsio" i ysbytai, mabwysiadu wardiau plant, gwneud teganau ar gyfer meithrinfeydd rhyfel a chartrefi plant amddifad, casglu ar gyfer llyfrgelloedd llyngesol rhyfel, mabwysiadu llongau, casglu perlysiau, y cynhaeaf, Cynilion Cenedlaethol a nwyddau adferedig.

(j) **Cymdeithas Gristnogol y Menywod Ifanc (Y.W.C.A.) -** Mae'r Gymdeithas wedi trefnu Corfflu Gwasanaeth y Triongl Glas ar gyfer eu clybiau sydd yn dymuno cael cynllun Gwasanaeth ar gyfer merched rhwng 14 - 16 oed. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal fel rhan o raglen gyffredinol yr Y.W.C.A gyda'r nod o gynnig rhaglen wasanaeth sydd mor hyblyg a chreadigol â phosib trwy'r Cwmni sydd o fewn y clwb. Mae'r cynllun yn darparu'r ddisgyblaeth a geir mewn driliau ac arolygon Cwmni, ynghyd â phrofion cydnabyddedig mewn pynciau megis arwyddo Morse, iechyd a chymorth cyntaf; ynghyd â chyfleodd i wasanaethu megis gwaith tir, achub a gwaith negesydd. Mae'r ail ran yn cynnwys gweithgarwch creadigol megis celf, drama, gwneud teganau, gwniadwaith a chrefft y fam. Mae'n ofynnol i ferched gymryd rhan mewn dau weithgaredd, un ym mhob adran. Fel gyda gweithgareddau eraill yr Y.W.C.A, mae'r aelodaeth yn agored i unrhyw ferch heb iddi orfod dod yn aelod llawn o'r Mudiad. Gwisgir gwisg ffurfiol, sef sgert las tywyll, blowsen wen a chap glas gyda bathodyn arbennig arno.

Gellir ychwanegu'r canlynol at yr uchod –

**Cymdeithas Brydeinig y Groes Goch -** Mae'r Gymdeithas yn cofrestru merched

(a bechgyn) rhwng 12 - 16 oed yn Adran Uchaf Cysylltiadau'r Groes Goch ac mewn Unedau Cadet sydd ynghlwm â Mintai'r Groes Goch. Yn 15 oed, caiff aelodau gychwyn eu hyfforddiant o dan faner Mintai'r Groes Goch, ac yn 16 oed ac ar ôl llwyddo yn yr arholiad cymhwyso, cânt ddod yn aelodau llawn o'r Fintai. Gellir ffurfio'r Fintai fel uned ar wahân neu o fewn Ysgol neu Glwb o fewn Cwmni Mudiad Cenedlaethol y Corfflu Merched Cenedlaethol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth cyntaf, nyrsio gartref, glendid, lles babanod a phlant, coginio, A.R.P, hyfforddiant corfforol hamdden, dril, ac mae sylw yn cael ei roi i hyfforddiant addysgol cyffredinol mewn cyfrifoldebau dinasyddiaeth. Anogir Cadéts i gyflawni gwasanaeth rhyfel trwy gynorthwyo mewn ysbytai, Amddiffyn Sifil, neu gasglu cyflenwadau, ayb sydd eu hangen ar ysbytai. Mae aelodau'r Fintai Ieuenctid yn gwasanaethu mewn ysbytai, Gorsafoedd Cymorth Cyntaf, meithrinfeydd rhyfel, naill ai yn llawn amser neu yn rhan amser, ac mae rhai eisoes wedi cael eu gwneud yn V.A.D.

**Cymdeithas Genedlaethol y Corfflu Hyfforddi Merched -** Ffurfiwyd y Gymdeithas, gyda chefnogaeth y mudiadau hŷn ar gyfer merched, er mwyn cyrraedd anghenion y grŵp oedran rhwng 16 - 18 oed cyn i bobl ifanc gael eu cofrestru am y tro cyntaf. Cynlluniwyd ei rhaglen hyfforddiant yn arbennig ar gyfer yr ystod oedran hwn, a thrwy gydol ei deuddeg mis cyntaf o fodolaeth, mae'r Gymdeithas wedi gwrthod pob awgrym i leihau'r oedran derbyn aelodau. Mae'r ymgorfforiad diweddar gyda'r Corfflu Awyr i Fenywod Ifanc a Chorfflu Hyfforddiant Llynges y Merched wedi dod â thua 18,000 o ferched o dan 16 oed i'r Gymdeithas. Yn fwy penodol, mae'r Cwmnïau a'r Adrannau sydd yn defnyddio'r rhaglen a ddyfeisiwyd ar gyfer grwpiau oedran hŷn yn dod yn fwy a mwy cyffredin. Ar ôl rhoi llawer o ystyriaeth ddwys i'r ffactorau, ac ar ôl cysylltu gyda Grŵp Merched y Gynhadledd Sefydlog a'r Bwrdd, mae'r Gymdeithas yn cynnig sefydlu Corfflu ar gyfer merched rhwng 14 - 16 oed. Bydd Cwmnïau'r Corfflu hwn yn cael eu trefnu ar wahân i'r Cwmnïau ar gyfer merched hŷn (heblaw mewn ardaloedd gwledig iawn) ac o dan swyddogion gwahanol, gyda gwisg a bathodyn gwahanol, a maes llafur hyfforddiant gwahanol a fydd yn cynnwys yr hyfforddiant sylfaenol gwreiddiol ynghyd â nifer o bynciau ychwanegol hefyd, yn rhai hamdden ac ymarferol. Bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi'r manylion llawn maes o law.

---

Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Pennaeth Llyfyrfa ei Mawrhydi
Cysodwyd gan James Preston
Cyhoeddwyd gan y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol
17 – 23 Stryd Albion, Caerlŷr, LE1 6GD